60 mun

# Adeiladu Môr-wyntyll Binc Eich Hun



### Yr offer sydd ei angen (fesul dysgwr)

- Taflen waith 'Adeiladu eich Môr-wyntyll Binc Bwytadwy', un i bob dysgwr, neu wedi'i rannu'n ddigidol
- 1 plât bapur
- 1 malws melys mawr
- 2 'strawberry laces' – wedi'i dorri yn 8 darn
- 1 gwelltyn
- 1 pigyn dannedd
- 1 llwyaid o jam (unrhyw flas)
- 1 llwy de
- 2 fisged crwn (e.e. rich tea)
- Sbrincyls siwgr gwyrdd, pinc neu coch

### I gwblhau'r gweithgaredd

1. Rhannwch y fideo 'Cymru Gorau'r Gorllewin' gyda'r dysgwyr – www.tiramor.cymru/morwyntyllbinc (Adnodd 1).

2. Gofynnwch i'r dysgwyr rannu enghreifftiau o fywyd morol y sylwon nhw arno yn y fideo. Sut y gallai'r organebau hyn fod yn gysylltiedig â'i gilydd o fewn eu hamgylchedd? Ar 0:42 yn y fideo, gofynnwch i'r dysgwyr nodi beth mae'r deifiwr sgwba yn edrych arno. Ydyn nhw'n meddwl ei fod yn blanhigyn neu'n anifail?

3. Cywirwch unrhyw gamsyniadau. Mae'n hawdd meddwl bod cwrel yn blanhigyn, ond anifeiliaid bach ydyn nhw mewn gwirionedd. Mae pob cytref cwrel yn cynnwys llawer o anifeiliaid cwrel unigol, a phob un yn cael ei adnabod fel polyp cwrel. Maent yn rhannu sgerbwd caled wedi'i wneud o brotein a chalsiwm carbonad.

4. Rhannwch daflen waith 'Adeiladu eich Môr-wyntyll Binc Bwytadwy' a chefnogwch y dysgwyr i greu eu polyp cwrel eu hunain.

5. Ar ôl cwblhau eu model, gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrio ar yr hyn a ddysgon nhw am bolypau cwrel. Trafodwch sut mae'r model yn cynrychioli nodweddion bywyd go iawn a pham mae'r nodweddion hyn, fel tentaclau, yn bwysig ar gyfer goroesi.

**TASG** YCHWANEGOL

Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio gwefan Rhwydwaith Gwybodaeth Bywyd Morol i weld lle gellir canfod môr-wyntyll binc: www.tiramor.cymru/morwyntylltbinc (Adnodd 2). Gofynnwch iddynt nodi'r ardaloedd o amgylch y DU lle mae môr-wyntyll binc wedi'u lleoli a disgrifio'r mathau o gynefinoedd sydd orau ganddynt.

**Nodyn Pwysig:** Gwiriwch am alergeddau ymlaen llaw a dilynwch ganllawiau eich ysgol ar gyfer trin bwyd yn ystod gweithgareddau.

# Adeiladu Eich Môr-wyntyll Binc Bwytadwy

**Byddwch angen**

- 1 plât papur
- 1 malws melys mawr
- 2 'strawberry laces'
- 1 gwelltyn
- 1 pigyn dannedd
- 1 llwyaid o jam
- 1 llwy de
- 2 bisged crwn
- Sbrincyls siwgr gwyrdd/pinc/coch

**CAM 1: Paratoi ar gyfer yr arbrawf**
A. Golchwch eich dwylo cyn dechrau.
B. Sicrhewch bod eich offer yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio.

**CAM 2: Crëwch gorff y polyp**
A. Rhowch eich malws melys yng nghanol eich plât papur.
B. Mae hwn yn cynrychioli corff eich polyp cwrel.

**CAM 3: Crëwch y geg a'r stumog**
A. Cymerwch welltyn a gwnewch dwll yng nghanol y malws melys yn ofalus.
B. Tynnwch y gwelltyn allan, gan adael twll. Mae hwn yn cynrychioli ceg a stumog eich polyp cwrel.

Mae polypau cwrel yn defnyddio'r twll hwn i fwyta a threulio bwyd, gyda'u tentaclau'n helpu i ddal darnau bach o fwyd a'u tywys i mewn.


Dim ond un twll sydd gan môr-wyntyll binc ac y maent yn ei ddefnyddio ar gyfer bwyta a chael gwared ar wastraff.

**CAM 4: Ychwanegu tentaclau**
A. Defnyddiwch bigyn dannedd i greu 8 twll bach o amgylch y malws melys.
B. Torrwch eich 'strawberry laces' yn 8 darn bach (tua 3cm yr un).
C. Rhowch y darnau 'strawberry laces' yn y tyllau. Mae'r rhain yn cynrychioli tentaclau eich polyp cwrel.

**CAM 5: Atodwch y polyp i'w sylfaen**
A. Defnyddiwch lwy i ledaenu ychydig bach o jam ar un o'ch bisgedi crwn.
B. Glynwch y malws melys i'r jam. Mae hyn yn cynrychioli'r polyp cwrel yn glynu ei hun i graig.

**CAM 6: Ychwanegwch amddiffyniad sgerbwd**
A. Torrwch yr ail fisged yn 4 darn.
B. Trefnwch y darnau hyn o amgylch y malws melys. Mae'r rhain yn cynrychioli sgerbwd y cwrel, sy'n darparu amddiffyniad a strwythur i'r polyp.

# Adeiladu eich Môr-wyntyll Binc Bwytadwy



**CAM 7: Ychwanegu algâu**
A. Rhowch ychydig o sbrincls siwgr (gwyrdd, pinc neu goch) ar y malws melys. Mae hyn yn cynrychioli'r algâu sy'n byw y tu mewn i'r cwrel.


*Mae rhai cwrelau yn cynhyrchu bwyd trwy ymuno ag algâu bach sy'n byw y tu mewn i'w cyrff. Mae'r algâu hyn yn defnyddio golau haul i greu egni trwy ffotosynthesis, yn debyg i sut mae planhigion yn gwneud bwyd. Mae'r algâu yn rhannu'r egni hwn gyda'r cwrel, tra bod y cwrel yn darparu maetholion a chartref diogel i'r algâu.*

**CAM 8: Ffurfio coloni cwrel**
A. Gweithiwch gyda 2 ddysgwyr arall.
B. Rhowch eich malws melys (polypau cwrel) yn agos at ei gilydd ar un plât i gynrychioli coloni cwrel.
C. Gyda chaniatâd, cewch fwyta'r polyp cwrel yr ydych wedi'i greu!

*Mae cwrel môr-wyntyll binc wedi'i wneud o nythfeydd o anifeiliaid bach o'r enw polypau. Mae'r polypau hyn yn byw gyda'i gilydd, gan weithio fel tîm i ffurfio'r cwrel!*

**TASG** YCHWANEGOL

*Ewch i wefan y Rhwydwaith Gwybodaeth Bywyd Morol i weld ble gellir canfod môr-wyntyll binc – www.tiramor.cymru/morwyntyllbinc (Adnodd 2). Ble ar hyd arfordir Cymru mae môr-wyntyllau pinc wedi'u lleoli? Pa fathau o gynefinoedd mae'r môr-wyntyll binc yn ei ffafrio?*



*Gelwir polyp cwrel ag 8 tentacl yn octocoral, gan fod "octo" yn golygu wyth.*